

Ffurflen hysbysiad adneuo rheolau safle

Rheoliadau Cartrefi Symudol (Rheolau Safle) (Cymru) 2014 Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013

Dylid defnyddio'r ddogfen hon pan fo rheolau safle newydd wedi cael eu gwneud neu pan fo rheolau safle wedi eu hamrywio a bod y rheolau safle hyn wedi cael eu hadneuo gyda'r awdurdod lleol yn unol â rheoliad 12 o reoliadau Cartrefi Symudol (Rheolau Safle) (Cymru) 2014.

Dylid cyflwyno'r ffurflen hon i holl feddianwyr(1) y safle a chaiff hefyd ei chyhoeddi mewn lle amlwg ar y safle.

1. Cafodd rheolau safle eu hadneuo gyda [rhowch fanylion cyswllt yr awdurdod lleol lle cafodd yr adneud ei wneud]

ar [dyddiad yr adneuo].

2. O [dyddiad](2) mae'r rheol(au) yn cymryd effaith fel teler(au) ymhlyg o'r cytundeb am y llain sy'n ymwneud â'ch cartref a bydd yn fy rhwymo i, fel perchennog y safle, a chi, fel y meddiannydd a'n hollynwyr mewn teitl.

3. Amgaeir copi o'r rheol(au) safle a gellir edrych arnynt hefyd yn swyddfa'r awdurdod lleol.

4. Pan fo rheol safle yn amrywiad ar reol presennol, mae unrhyw reolau safle eraill sydd eisoes mewn grym ond nad yw'r amrywiad yn effeithio arnynt yn parhau mewn grym heb eu newid (3)

Llofnodwyd

Perchennog safle(4)

Dyddiad(5)

Nodiadau

- (1) Fel y'u diffinnir gan adran 48 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.
- (2) Y diwrnod sy'n dod 22 o ddiwrnodau ar ôl dyddiad yr hysbysiad hwn.
- (3) Nid yw'r paragraff hwn yn berthnasol i'r adneud cyntaf o reolau a wneir ar ôl i Reoliadau Cartrefi Symudol (Rheolau Safle) (Cymru) 2014 ddod i rym.
- (4) Llofnod perchennog y safle neu berson a awdurdodir i lofnodi ar ran perchennog y safle.
- (5) Rhaid i'r dyddiad hwn fod o fewn 7 niwrnod i adneuo'r rheolau safle gyda'r awdurdod lleol.